Cyllid & Thollau EM

R85 (2010) Taflen gymorth
Derbyn eich llog heb fod treth wedi'i didynnu

Mae'r daflen gymorth hon at eich defnydd chi ac i'w chadw gennych

Peidiwch â'i rhoi neu ei hanfon i'r banc, cymdeithas adeiladu neu eich swyddfa Cyllid a Thollau EM.

Mae bron pawb sydd yn byw yn y Deyrnas Unedig (DU) yn gallu ennill neu dderbyn incwm o ryw £124 bob wythnos cyn i dreth cael ei didynnu. Os yw eich incwm yn is na'r terfyn hwn ac mae gennych arian mewn banc neu gymdeithas adeiladu sy'n ennill llog, yna efallai eich bod yn talu treth pan nad oes angen i chi.

I ddarganfod p'un a yw hyn yn gymwys i chi (neu i gyfrif yr ydych yn gofalu amdano ar ran rhywun arall) darllenwch y Daflen Gymorth ac atebwch y cwestiynau.

Os nad ydych yn byw yn y DU drwy'r amser yna gallai rheolau gwahanol fod yn berthnasol i chi. Ffoniwch y Llinell Gymorth i gael rhagor o wybodaeth.

Plant o dan 18

Mae plant yn derbyn incwm rhydd o dreth hefyd. Fodd bynnag os yw arian sydd yn cael ei roi gan riant yn creu llog o fwy na £100 y flwyddyn yna bydd y llog yn cael ei drin fel rhan o incwm y rhiant a rhoddodd yr arian iddynt.

Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i arian sydd yn cael ei roi gan eraill gan gynnwys teidiau a neiniau. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk** neu ffoniwch y Llinell Gymorth.

Gofalu am gyfrif ar ran rhywun arall?

Os ydych yn gofalu am gyfrif ar ran rhywun arall, efallai plentyn o dan 16 neu rywun sy'n methu rheoli eu harian eu hunain, defnyddiwch eu manylion (gan gynnwys y cyfeiriad) pan fyddwch yn cwblhau'r ffurflen. Am fwy o wybodaeth, darllenwch y datganiad ar ffurflen R85 *Derbyn eich llog heb fod treth wedi'i didynnu.*

Wedi talu gormod o dreth mewn blynyddoedd cynharach?

Os ydych wedi talu treth ar eich llog yn y gorffennol, ond yn awr yn meddwl na ddylech fod wedi talu yna ffoniwch ni ar **0845 366 7850**.

Mae gennych hyd at 5 mlynedd o'r 31 Ionawr ar ôl diwedd pob blwyddyn dreth i hawlio treth yn ôl. Er enghraifft, os ydych wedi talu mwy o dreth nag sydd angen am y flwyddyn dreth 2004-05 mae gennych tan 31 Ionawr 2011 i'w hawlio yn ôl.

Yn gyntaf, cyfrifwch eich lwfans rhydd o dreth

Eich oedran ar 5 Ebrill 2011	Lwfans Blynyddol	Lwfans wythnosol
O dan 65	£6,475	£124
65 i 74	£9,490	£182
75 neu throsodd	£9,640	£185

O'r tabl uchod, rhowch y lwfans blynyddol sy'n berthnasol i chi ym mlwch 1

Blwch 1 £ . 0 0

Lwfans Pâr Priod

A oeddech chi, neu'r person yr ydych yn briod ag ef/hi, neu mewn phartneriaeth sifil ag ef/hi, wedi eich geni cyn 6 Ebrill 1935?
Os na anwyd yr un ohonoch cyn y dyddiad hwn yna nid oes hawl gennych i gael Lwfans Pâr Priod a dylech fynd ymlaen i'r blwch nesaf.
Os ganwyd un ohonoch cyn y dyddiad hwn ac:

- rydych yn ddyn priod a briododd cyn 5 Rhagfyr 2005 neu
- chi yw'r priod neu'r partner sifil sydd â'r incwm uchaf a gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005 yna

efallai bod gennych hawl i Lwfans Pâr Priod a dylech, at ddibenion cwblhau'r ffurflen hon yn unig, rhoi £4,702 ym mlwch 2.

Blwch 2 £ . 0 0

Brasamcan yw'r ffigur hwn a fydd yn eich galluogi i benderfynu p'un a allwch gwblhau ffurflen R85. Os bydd yn ofynnol i chi yn hwyrach gwblhau ffurflen Hunanasesiad neu os byddwch yn gwneud cais am ad-daliad treth bydd angen i ni gyfrifo eich treth yn fanwl gywir.

Lwfans Person Dall

A ydych wedi eich cofrestru yn ddall gyda'ch awdurdod lleol neu'n cwblhau'r ffurflen hon dros rywun sydd wedi ei gofrestru? Os ydych, rhowch £1,890 ym mlwch 3.
Os ydych yn byw yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon yna efallai nad yw eich awdurdod lleol yn cadw cofnod. Os yw hyn yn gymwys i chi yna ffoniwch y Llinell Gymorth.

Blwch 3 £ . 0 0

Cyfanswm y lwfansau rhydd o dreth

Adiwch ynghyd y symiau ym mhlychau 1, 2 a 3. Rhowch y cyfanswm ym mhlwch 4.

Blwch 4 £ . 0 0

Trowch y dudalen i gyfrifo eich incwm blynyddol

Eich incwm blynyddol

Os nad ydych yn siŵr o'r hyn a ystyrir fel incwm yna ewch i'n gwefan neu ffoniwch y Llinell Gymorth ar **0845 980 0645**.
Os nad ydych yn siŵr p'un a ddylid cynnwys eich incwm o'ch Cynilon Cenedlaethol a Buddsoddiadau, yna ewch at wefan *NS & I* yn **www.nsandi.com** neu ffoniwch y llinell gymorth.

Swm Blynyddol

Pensiwn y Wladwriaeth – eich hawliad wythnosol x 52
Peidiwch â chynnwys unrhyw Gredyd Pensiwn neu unrhyw gyfandaliad o Bensiwn y Wladwriaeth. £ .

Pensiynau eraill er enghraifft, gan gyflogwr blaenorol. £ .

Tâl o gyflogaeth, neu elw drwy weithio i chi eich hun. £ .

Lwfans Ceisio Gwaith a Budd-dal Anallogrwydd trethadwy
Peidiwch â chynnwys unrhyw Gredyd Treth Gwaith neu Gredyd Treth Plant neu unrhyw daliadau neu fudd-daliadau nawdd cymdeithasol megis Budd-dal Plant neu Lwfans Gweini. £ .

Llog o fanciau neu gymdeithasau adeiladu
Cynhwyswch y swm cyn bod treth yn cael ei didynnu. Dyma swm y llog gros. Peidiwch â chynnwys llog ISA. Os oes gennych gyfrif ar y cyd yna cynhwyswch eich cyfran chi yn unig. £ .

Incwm trethadwy arall – dylech gynnwys difidendau cwmni.
Ni ddylech gynnwys Benthyciadau Myfyrwyr. £ .

Cyfanswm yr incwm blynyddol

Rhowch y cyfanswm ym mlwch 5. Blwch 5 £ . 0 0

Derbyn eich llog heb fod treth wedi'i didynnu

Ydy'r ffigur ym mlwch 5 yn llai na'r ffigur ym mlwch 4 trosodd?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os ydy, yna cwblhewch ffurflen R85 a'i rhoi i'r banc neu gymdeithas adeiladu. Byddwch wedyn yn derbyn y llog heb i'r dreth gael ei didynnu.

Os nac ydy, yna **peidiwch** â chwblhau'r ffurflen R85 gan nad ydych yn gymwys i dderbyn llog yn y modd hwn.

Ffurflen R85 ***Derbyn eich llog heb fod treth wedi'i didynnu***
Os ydych yn cyfrifo bod eich incwm blynyddol yn llai na'ch lwfansau rhydd o dreth yna dylech gwblhau ffurflen R85 *Derbyn eich llog heb fod treth wedi i didynnu* a ddaeth gyda'r Daflen Gymorth hon.

Trwy gwblhau'r ffurflen R85 rydych yn dweud wrth eich banc neu gymdeithas adeiladu nad oes rhaid i chi dalu treth.

Os bydd eich incwm yn codi sy'n golygu bod yn rhaid i chi ddechrau talu treth, rhaid i chi ddweud wrth eich banc neu gymdeithas adeiladu lle mae gennych gyfrif. Nid eu cyfrifoldeb nhw yw gwirio bod yr wybodaeth sydd wedi ei rhoi ar yr R85 yn wir neu'n gyfoes. Nodwch fodd bynnag efallai y byddwn yn gwirio'r wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi.

Os ydych yn agor cyfrif newydd yna bydd angen i chi gwblhau ffurflen R85.

Os yw eich banc neu gymdeithas adeiladu wedi tynnu'r dreth oddi wrth eich llog yn y flwyddyn dreth hon sef 2010-11, sy'n rhedeg o 6 Ebrill 2010 hyd at 5 Ebrill 2011 yna efallai y gallant ei ad-dalu i chi.

Llinell Gymorth **0845 980 0645**
Am wasanaeth Cymraeg ffoniwch **0845 302 1489**
Mae Typetalk ar gael trwy wasgu rhif 18001 yn gyntaf.
Dydd Llun i Ddydd Gwener 08.00 tan 17.00

Gwybodaeth ychwanegol
Os ydych angen help neu wybodaeth bellach ynglŷn â derbyn llog heb fod treth wedi'i didynnu yna ffoniwch y Llinell Gymorth.

Mae fersiwn Braille o'r Daflen Gymorth ar gael drwy ffonio'r Llinell Gymorth.

I gael fersiwn print bras o'r Daflen Gymorth hon neu'r ffurflen R85 ffoniwch y Llinell Gymorth neu ewch ar-lein yn **www.hmrc.gov.uk** a chwiliwch am R85 print bras.